

Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei gyhoeddi yn lle OS 2019/367 (Cy. 89) nad oedd yn adlewyrchu'r fersiwn a lofnodwyd gan un o Weinidogion Cymru ac sydd wedi ei dynnu o legislation.gov.uk. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu dyroddi yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 Rhif 597 (Cy. 126)

**YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
ANIFEILIAID, CYMRU**

IECHYD ANIFEILIAID

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion
Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

| | | |
|--|---------|-------------------------|
| <i>Gofynion sifftio wedi eu bodloni</i> | - - - - | <i>11 Chwefror 2019</i> |
| <i>Gwnaed</i> | - - - - | <i>25 Chwefror 2019</i> |
| <i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i> | - - | <i>27 Chwefror 2019</i> |

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008

- 2.—(1) Diwygir Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008(2) fel a ganlyn.
- (2) Yn y Rheoliadau hyn—
- (a) yn lle “CE”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “trwyddedig” (gan dreiglo yn ôl yr angen).
- (3) Yn rheoliad 2(1)—
- (a) yn y lle priodol mewnosoder—
- “ystyr “trwyddedig” (“*licensed*”) yw wedi ei drwyddedu gan Weinidogion Cymru”;
- (b) yn y diffiniad o “mangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu” (“*unlicensed processing premises*”), ym mharagraff (a)(ii) yn lle “y fasnach ryng-Gymunedol” rhodder “masnach ag Aelod-wladwriaeth”.
- (4) Yn rheoliad 3—
- (a) ym mharagraff (2), yn y geiriau ar ôl is-baragraff (c), yn lle “masnach ryng-Gymunedol” rhodder “masnach ag Aelod-wladwriaeth”; a
- (b) hepgorer paragraff (4).
- (5) Yn rheoliad 4—
- (a) ym mharagraff (b), yn is-baragraff (i) a (ii), yn lle “masnach ryng-Gymunedol” rhodder “masnach ag Aelod-wladwriaeth”;
- (b) ym mharagraff (c), yn is-baragraff (i) a (ii), yn lle “masnach ryng-Gymunedol” rhodder “masnach ag Aelod-wladwriaeth”.
- (6) Yn rheoliad 29(c), yn lle “o Aelod-wladwriaeth arall neu o drydedd wlad” rhodder “o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig”.
- (7) Yn rheoliad 30—
- (a) yn lle’r pennawd rhodder “Y fasnach mewn semen i Aelod-wladwriaeth”;
- (b) ym mharagraff (1)—
- (i) yn y geiriau cyn is-baragraff (a), yn lle “ar gyfer masnach ryng-Gymunedol” rhodder “i Aelod-wladwriaeth”;
- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “o Aelod-wladwriaeth arall neu a fewnforir o drydedd wlad yn unol â’r Gyfarwyddeb” rhodder “o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig”;
- (c) ym mharagraff (2), yn lle’r geiriau “ar gyfer masnach ryng-Gymunedol” hyd at y diwedd, rhodder “i Aelod-wladwriaeth sicrhau bod y dystysgrif iechyd anifeiliaid fel y’i cyhoeddir gan Weinidogion Cymru o bryd i’w gilydd yn mynd gydag ef.”
- (8) Yn rheoliad 38(1), hepgorer “arall”.
- (9) Yn Atodlen 3—
- (a) yn Rhan 2—
- (i) ym mharagraff 2—
- (aa) yn is-baragraff (1), yn lle “gyflenwi ar gyfer masnach ryng-Gymunedol” rhodder “osod ar y farchnad”;
- (bb) yn is-baragraff (2), yn lle “ni chaiff fod yn destun masnach ryng-Gymunedol” rhodder “ni chaniateir iddo gael ei osod ar y farchnad”;
- (ii) ym mharagraff 3, yn lle “ryng-Gymunedol” rhodder “ag Aelod-wladwriaeth”;

(2) O.S. 2008/1040 (Cy. 110) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2013/398 (Cy. 48); ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

- (b) yn Rhan 3, ym mharagraffau 1(b)(i) ac (c), yn lle “ryng-Gymunedol” rhodder “arall”.
- (10) Yn Atodlen 5, yn Rhan 3, ym mharagraff 1—
 - (a) yn is-baragraff (a)(ii), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall”, rhodder “mewn Aelod-wladwriaeth”;
 - (b) yn is-baragraff (b), yn lle’r geiriau o “marciau” hyd at y diwedd rhodder “marciau amlwg sy’n wahanol i’r marciau a ddefnyddir mewn canolfannau casglu a chanolfannau storio trwyddedig”.
- (11) Yn Atodlen 8, yn Rhan 1, yn is-baragraffau (a)(ii) a (b)(ii), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”.

Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

3.—(1) Diwygir Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(3) fel a ganlyn.

- (2) Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol mewnosoder—
 - “ystyr “system Traces yr UE” (“*EU Traces system*”) yw’r system Traces a sefydlwyd o dan Benderfyniad y Comisiwn 2004/292/EC(4) (ar gyflwyno’r system Traces ac yn diwygio Penderfyniad 92/486/EEC);”;
 - “ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”) yw unrhyw wlad heblaw Ynysoedd Prydain neu Aelod-wladwriaeth”.
- (3) Yn rheoliad 4, yn lle “rhwng Aelod-wladwriaethau” rhodder “ag Aelod-wladwriaethau yn unol â’r cytundebau hynny”.
- (4) Yn Rhan 2, yn y pennawd, yn lle “Symud rhwng” rhodder “Mewnforio o”.
- (5) Yn rheoliad 5—
 - (a) yn lle’r pennawd, rhodder “Mewnforio anifeiliaid a deunydd genetig o Aelod-wladwriaethau”;
 - (b) ym mharagraff (1), yn lle’r geiriau o “i unrhyw” hyd at y diwedd, rhodder “dod ag unrhyw anifail na deunydd genetig i Gymru o Aelod-wladwriaeth oni bai bod tystysgrif iechyd berthnasol ar gyfer yr anifail neu’r deunydd genetig hwnnw wedi ei chwblhau ac wedi ei llofnodi yn dod gydag ef.”
- (6) Hepgorer rheoliad 6.
- (7) Yn rheoliad 7—
 - (a) yn y pennawd, yn lle “rhwng Aelod-wladwriaethau”, rhodder “i Gymru”.
 - (b) hepgorer paragraff (1);
 - (c) ym mharagraff (2)—
 - (i) hepgorer y gair “arall”; a
 - (ii) ar ôl y geiriau “Gweinidogion Cymru” mewnosoder “drwy’r system hysbysu ynghylch mewnforion sy’n disodli system Traces yr UE yn y Deyrnas Unedig”.
- (8) Yn rheoliad 11—
 - (a) ym mharagraff (1), yn lle “y Comisiwn Ewropeaidd” rhodder “Gweinidogion Cymru”;
 - (b) ym mharagraff (4)—
 - (i) hepgorer y geiriau o “a geir” hyd at “eu trefnu”; a

(3) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(4) OJ Rhif L 94, 31.3.2004, t. 63.

- (ii) hepgorer y geiriau o “a hysbysu’r” hyd at “drosto”.
- (9) Yn rheoliad 12(4), ar ôl y gair “gymeradwyaeth” mewnosoder “gan Weinidogion Cymru”.
- (10) Yn rheoliad 14—
- (a) ym mharagraff (1), ar ôl y gair “ffin” mewnosoder “drwy’r system ar gyfer hysbysu ynghylch mewnforyn sy’n disodli system Traces yr UE yn y Deyrnas Unedig”;
 - (b) ym mharagraff (2), ar ôl y gair “ffin” mewnosoder “drwy’r system ar gyfer hysbysu ynghylch mewnforyn sy’n disodli system Traces yr UE yn y Deyrnas Unedig”;
 - (c) ym mharagraff (4), hepgorer y gair “arall”.
- (11) Yn rheoliad 15—
- (a) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—
 - “(1A) At ddibenion paragraff (1)(a), mae Erthygl 4 o Gyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC i gael ei darllen fel pe bai “retained EU law” wedi ei roi yn lle’r cyfeiriadau at “Community legislation” ym mharagraff 4(a)(i) a (b)(i).”
 - (b) ar ôl paragraff (1A), mewnosoder—
 - “(1B) At ddibenion paragraff (1)(b), mae Erthygl 4 o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/496/EEC i gael ei darllen fel pe bai—
 - (a) ym mharagraff 1—
 - (i) y cyfeiriad at “Member States” yn gyfeiriad at “The Welsh Ministers”;
 - (ii) yn yr ail indent, y geiriau o “at Community level” hyd at ddiwedd yr indent hwnnw wedi eu hepgor;
 - (iii) yn y trydydd indent, “Community rules” wedi ei ddisodli gan “retained EU law”;
 - (iv) yn yr indent olaf, y geiriau o “through” hyd at ddiwedd yr indent hwnnw wedi eu hepgor;
 - (b) ym mharagraff 2—
 - (i) yn is-baragraff (b), bod “retained EU law” wedi ei roi yn lle “Community rules”;
 - (ii) yn is-baragraff (d), y geiriau “For the purposes of” hyd at “his direction” wedi eu hepgor;
 - (c) paragraff 5 wedi ei hepgor.”; ac
 - (c) ym mharagraff (4)—
 - (i) yn is-baragraff (a), yn lle’r geiriau o “y rhestr” hyd at y diwedd rhodder “rhestr o drydydd gwledydd a gymeradwywyd, neu os gwaherddir mewnforyn o’r diriogaeth honno fel arall”;
 - (ii) yn is-baragraffau (b) ac (c), yn lle “yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “yng nghyfraith yr UE a ddargedwir” ac yn is-baragraff (d) yn lle “deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “cyfraith yr UE a ddargedwir”.
- (12) Yn rheoliad 18—
- (a) ym mharagraff (2), yn lle “Undeb Ewropeaidd” rhodder “Deyrnas Unedig”; a
 - (b) hepgorer paragraff (4).
- (13) Yn rheoliad 20(1)(b), yn lle “y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “i drydedd wlad”.
- (14) Yn lle rheoliad 22(1) rhodder—

“(1) Os bydd gwiriadau milfeddygol yn datgelu bod cynhyrchion trydedd wlad yn gysylltiedig â thorcyfraith difrifol neu fynych o ran unrhyw ofyniad mewnforio, neu pan fo’r gwiriadau hynny yn datgelu bod y lefelau gweddillion uchaf yn uwch na’r hyn a ganiateir, caiff Gweinidogion Cymru gymhwyso’r rheoliad hwn at gynhyrchion tebyg dilynol y deuir â hwy i Gymru o drydedd wlad benodol, rhan o drydedd wlad neu sefydliad penodol nes eu bod wedi eu bodloni nad oes rhagor o dorcyfraith yn digwydd.”

(15) Yn rheoliad 23—

- (a) ym mharagraff (1)(c), hepgorer “, y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd”; a
- (b) ym mharagraff (3)(b), hepgorer “y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd”.

(16) Yn rheoliad 27—

- (a) ym mharagraff (1), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “Undeb Ewropeaidd” rhodder “Deyrnas Unedig”;
- (b) ym mharagraff (3)(a), hepgorer “yn yr Aelod-wladwriaeth”.

(17) Yn rheoliad 33(2), hepgorer “, gan gynnwys unrhyw gynrychiolydd o’r Comisiwn Ewropeaidd”.

(18) Yn rheoliad 35—

- (a) yn y pennawd a pharagraff (1), hepgorer “arall”;
- (b) yn lle paragraff (2)(c), rhodder—
 - “(c) dychwelyd yr anifeiliaid neu’r deunydd genetig i’r Aelod-wladwriaeth yr anfonwyd hwy neu yr anfonwyd ef ohoni, gydag awdurdodiad yr awdurdod cymwys, a hynny ar ôl hysbysu unrhyw Aelod-wladwriaeth y byddant neu y bydd yn mynd drwyddi ymlaen llaw.”

(19) Yn rheoliad 39, yn y tabl—

- (a) yng ngholofn 1, hepgorer “rheoliad 6(5)” a’r cofnod cyfatebol yng ngholofn 2;
- (b) yng ngholofn 1, hepgorer “rheoliad 6(6)” a’r cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

(20) Diwygir Atodlen 2 yn unol â pharagraffau (21) a (22).

(21) Yn Rhan 1—

- (a) yn y pennawd, yn lle “masnach rhwng” rhodder “mewnforion o”;
- (b) ym mharagraff 2(1), yn lle “rhwng” rhodder “o”;
- (c) hepgorer paragraff 3;
- (d) ym mharagraff 4, yn y geiriau o flaen is-baragraff (a) hepgorer “sy’n ymwneud â masnach rhwng Aelod-wladwriaethau”;

(e) ym mharagraff 5—

(i) yn lle is-baragraff (1), rhodder—

“(1) Ni chaiff neb fewnforio epa, (simia a prosimian) oni bai ei fod yn dod o ganolfan a gymeradwywyd gan awdurdod cymwys Aelod-wladwriaeth a’i fod wedi ei fwriadu ar gyfer canolfan a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 92/65/EEC (“Cyfarwyddeb Balai”).”;

(ii) ar ôl is-baragraff (1), mewnosoder—

“(1A) Mae is-baragraff (1) yn ddarostyngedig i is-baragraff (1B).”

(iii) ar ôl is-baragraff (1A), mewnosoder—

“(1B) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi corff cymeradwy yn ysgrifenedig i gaffael epa gan unigolyn.”

- (iv) yn is-baragraff (2), ar y diwedd mewnosoder “(gan ddarllen cyfeiriadau yn Erthygl 13 at Aelod-wladwriaeth a gyrchir fel cyfeiriad at Gymru, darllen cyfeiriad at awdurdod cymwys Aelod-wladwriaeth fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, a chan hepgor paragraffau 2(d) ac (e)).”
- (v) yn is-baragraff (3), ar y diwedd mewnosoder “(gan ddarllen cyfeiriadau ym mhwynt 6 o Atodiad C at yr awdurdod cymwys fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, darllen cyfeiriadau at ddeddfwriaeth Gymunedol fel cyfeiriadau at gyfraith yr UE a ddargedwir, a chan hepgor paragraff (d) o bwynt 6).”;
- (vi) yn is-baragraff (4), yn lle’r geiriau o “rhwng Aelod-wladwriaethau” hyd at y diwedd, rhodder “mewn ofa ac embryonau rhywogaethau’r ddafad, yr afr a’r ceffyl a semen rhywogaethau’r ddafad, yr afr a’r ceffyl a semen moch.”;
- (vii) hepgorer is-baragraff (5);
- (f) yn lle paragraff 6(3) rhodder—
“(3) Ni chaiff neb fynd yn groes i Erthygl 10(1) o’r Rheoliad Comisiwn hwnnw (hysbysiad o symud).”;
- (g) yn lle paragraff 7, rhodder—

“Sgil-gynhyrchion anifeiliaid

- 7. Ni chaiff neb fewnforio i Gymru sgil-gynnyrch anifail y mae Erthygl 48 o Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 yn gymwys iddo oni bai ei fod yn cael ei fewnforio yn unol â’r Erthygl honno.”;
- (22) Yn Rhan 2, ym mharagraff 9, cyn “Rheoliad” mewnosoder “mewnforio adar penodol ac amodau cwarantîn at ddiben”.
- (23) Yn Atodlen 3, ym mharagraff 5 —
 - (a) yn y pennawd, yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “rhan arall o’r Deyrnas Unedig”;
 - (b) ar ôl “chynhyrchion” mewnosoder “o drydedd wlad”;
 - (c) yn lle “Aelod-wladwriaeth arall neu ran” mewnosoder “rhan”.

25 Chwefror 2019

Lesley Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion
Gwledig, un o Weinidogion Cymru

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, sy'n berthnasol i'r fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.